

Cofnodion o Cyfarfod Cyngor Cymuned Llangeitho a gynhelir ar nos Lun
3 Chwefror 2020 yn Festri Capel Llwynpiod am 8 o'r gloch.
Minutes of Llangeitho Community Council Meeting held on Monday,
3 February 2020, in Llwynpiod Festri Chapel, at 8pm

Croesawodd y Cadeirydd pawb i'r cyfarfod misol a dymunwyd Blwyddyn Newydd Dda i bawb. Cydymdeimlwyd a Cyng Gerwyn Ebenezer a'i deulu yn ei brofedigaeth ddiweddar.

Presennol/Present

Cyng Gwenfair Owen (Gadair/Chair), Gerwyn Ebenezer, Emyr Jones, Myrddin James, Daniel Thomas, Beryl Evans, Eirian Jones, John Evans, Rhian Turner, Cyng/Cllr Rhodri Evans & PCSO John Evans

Ymddiheuriadau/Apologies – Cyng/Cllr Gwilym Evans; Dafydd Morse a Cyng/Cllr Paul Rooke

Datgan Diddordeb/Declaration of Interest – Neb / No one

Adroddiad yr Heddlu/Police Report – Derbyniwyd adroddiad ar lafar gan yr heddlu o'r digwyddiadau yn y gymuned dros y misoedd diwethaf, gan gynnwys braslun i'r canllawiau i hedfan drôns. Cylchredwyd y côd drôns a weithredwyd gan Awdurdod Hedfan Sifil y DU a gofynnir i'r Clerc ei harddangos yn yr hysbysfyrddau o fewn y Gymuned.

Cofnodion y cyfarfod diwethaf/Minutes of previous meeting

Cynnig / Proposed: Cyng Beryl Evans

Eiliwyd / Seconded: Cyng Rhian Turner

Materion yn codi o'r cofnodion/Matters arising from minutes

- Cyng Dafydd Morse wedi ymgynghori efo Mr Huw Davies, o'r Ysgol Rhos Helyg, Campws Llangeitho ac maent am roi fflag newydd i fyny ar bostyn yr ysgol ar gyfer Eisteddfod 2020. Croesawyd cymorth ariannol tuag at gostau'r fflag.
- Cyng Rhodri Evans wedi trefnu bod Mr John Hadlow yn dod allan i asesu'r cylchfan yn Llangeitho ar gyfer plannu blodau ar y cylchfan.
- Clerc wedi cysylltu â Mr Kieran Elliott am ddyddiad dechrau ar y gwaith ar y milwr, Clerc yn disgwyl ymateb oddi wrth Mr Elliott. Gofynnir i'r Clerc gysylltu â Mr Elliott i weld a yw'r pris dal yn sefyll yr un fath.
- Soniwyd bod y Cyngor Cymuned dim ond yn talu am etholiadau ar lefel Cynghorau Cymuned ac nid am etholiadau eraill. Clerc i fod derbyn e-bost yn cadarnhau hyn oddi wrth swyddfa'r Cyngor Sir.
- Aelodau'r Cyngor Sir wedi bod allan yn asesu'r twll yn y ffordd/culvert wedi cwmpo ar y gornel sy'n troi lan am Bronaeron o Parchrhydderch ond heb wneud y gwaith hyd yma.
- Cyng Rhodri Evans yn edrych mewn i'r broblem o'r twll wrth ymyl y ffordd rhwng Cnwc y Barcud a Cae Melyn, soniwyd hefyd bod yna lori wedi mynd mewn i'r clawdd ac wedi achosi'r pridd i gwmpo i'r ffordd.
- Cyng Rhodri Evans wedi derbyn cadarnhad bod y golau stryd ar gornel Castle House yn mynd i ddychwelyd.
- Cadarnhad wedi'u dderbyn oddi wrth Will Evans bod hi'n bosibl i drefnu un sesiwn hyfforddiant ar y peiriant Di-ffib yn Llangeitho ac un arall ym Mhenuwch, Clerc wedi rhoi dyddiadau cyfleus i'r Neuadd yn Llangeitho iddynt ystyried.
- Angen y sweeper i fyny rhiw Cefnbanadl, Llwynpiod.
- Ni anfonwyd llythyr ynglŷn â newid ffiniau Meddygfa Borth.
- Gwaith da wedi'u wneud yn glanhau efo'r sweeper lan am Ty Nant Llwynpiod.
- Dim wedi'u wneud am y twll wrth ymyl y ffordd lan ochr chwith o Alltgoch am Alltdderw Llangeitho.
- Arwydd ffordd sy'n dangos rhiw serth ar bwys Gaerlwyd, Llwynpiod, wedi troi a thorri angen sylw'r Cyngor Sir.

Gohebiaeth/Correspondence

- Derbyniwyd cais cynllunio A190975, Ffosrodyn, Blaenpennal, ni thrafodwyd y cais gan ei fod allan o'n plwyf.
- Derbyniwyd cais cynllunio A200026, Talyryn, Llangeitho, Erection of an extension, cytunwyd i gefnogi'r cais.

Cyfrifon/Accounts

- Cyflog y Clerc (Rhagfyr/Ionawr) £212.72
- Dwr Cymru £14.78 (talwyd dros gyfnod y Nadolig)
- Cyngor Sir Ceredigion £232.28 (Soniwyd bod costau cynnal golau stryd wedi gostwng gan fod y lampiau wedi'u newid i LED)
- Welsh Hearts (bocs di-ffib) £250.00
- Balans y banc £7,798.68

Cynnig: Cyng Gerwyn Ebenezer

Eilio: Cyng John Evans

Un Llais Cymru/One Voice Wales

Cynhelir pwyllgor Ardal Un Llais Cymru yn Aberaeron nos Fercher 5ed Chwefror 2020 lle bod gwefannau'r Cynghorau Cymuned i'w drafod, gofynnir i'r Cadeirydd fynychu.

Unrhyw Fater Arall/Any Other Business

- Cyng Myrddin James a Cyng Rhodri Evans wedi derbyn e-bost oddi wrth Mrs Horsfall Turner o Langeitho yn cwyno am oryrru drwy'r pentref a'r sbwriel sydd yn cael ei gwmpo oddi amgylch yr ysgol. Cyng Rhodri Evans wedi ymateb yn uniongyrchol iddi.
- Soniwyd bod yna hysbyseb yn cael ei harddangos ar lôn Frondeg, Penuwch, dim tresmaswyr. Nid oedd hawl ganddynt i arddangos math hysbyseb.
- Pan fyddai tai yn nalgylch Llangeitho wedi derbyn y bocsys i ddodi poteli allan i'r sbwriel, fyddant yn tybio bod y banc boteli yn cael mynd o Langeitho. Soniwyd bod incwm y banc boteli yn mynd i'r Neuadd ar hyn o bryd, Cyng Rhodri Evans i gysylltu â'r Cyngor Sir i sôn am y golled incwm.
- Cyfarfod yn cael ei drefnu yn fuan ar gyfer trafod ymhellach i dacluso/harddu'r pentref ar gyfer Eisteddfod 2020.
- Soniwyd am y lori artic a fu'n cael traferth dod ar y ffordd rhwng Tynrhos a Llwynderw ac yn gorfod cadw allan i ganol y ffordd oherwydd y coed oedd yn gostwng allan i'r ffordd. Clerc i ysgrifennu at berchennog Llwynderw i dorri'r coed nol.
- Estynnwyd llongyfarchiadau i'r Clerc ar ei phenodiad i swydd ysgrifenyddes i'r British Harness Racing Club.
- Soniwyd bod Cyngor Sir wrthi yn gwneud arolwg 'Ash Dieback' yng Ngheredigion ar hyn o bryd.

Dyddiad a Lleoliad y cyfarfod nesaf/Date & location of next meeting

Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar 2ail o Fawrth 2020 – Festri Capel Penuwch